OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 1868 (Cy.127)

# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *7 Gorffennaf 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *14 Gorffennaf 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 1(1) o Ddeddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2000, a deuant i rym ar 14 Gorffennaf 2000.

(2) Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygio Rheoliadau Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1997**

**2.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1997(**3**) (personau y gellir gwneud taliadau uniongyrchol iddynt), hepgorir is baragraff (a) o baragraff (2).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)).

*Jane Davidson*

7 Gorffennaf 2000 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1996 p. 30.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1997/734.
(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1996 yn galluogi awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu (neu am drefnu darparu) gwasanaethau gofal cymunedol i wneud cyfraniadau ar ffurf taliadau uniongyrchol i bersonau er mwyn iddynt sicrhau y darperir y gwasanaethau hynny.

Mae Rheoliadau Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1997 yn pennu'r personau y gellir gwneud taliadau uniongyrchol iddynt o dan y Ddeddf. Nid yw'r disgrifiad o'r personau hynny yn cynnwys unrhyw berson sy'n 65 oed neu drosodd, oni bai bod y person hwnnw wedi cael taliad uniongyrchol yn y flwyddyn cyn i'r person gyrraedd 65 oed.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1997fel bod y personau y gellir gwneud taliadau uniongyrchol iddynt o dan y Ddeddf yn cynnwys personau 65 oed neu drosodd p'un a gawsant daliad o'r fath yn ystod y flwyddyn cyn iddynt gyrraedd eu 65 oed neu beidio.